PWYLLGOR CENEDLAETHOL COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 MEDI YNG NGHAERDYDD

Yn bresennol: Jon Owen Jones, Cadeirydd
Roger Cooper
Trefor Owen
Clive Thomas
Judith Webb
John Lloyd Jones
Peter Garson

Hefyd yn mynychu: Martin Veale (Adran Gyllid Comisiwn Coedwigaeth Cymru)

Terry O'Keefe (Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru)

Ymddiheuriadau Rory O'Sullivan

CYFLWYNIAD

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan JOJ. Cafwyd ymddiheuriadau gan Rory O'Sullivan.

COFNODION A MATERION SY'N CODI

2. Cymeradwywyd Cofnodion 16 Gorffennaf yn gofnod cywir. Gofynnodd JOJ i'r Ysgrifennydd ddarparu dadansoddiad manwl o faterion cyllid yn y dyfodol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth y Pwyllgor o'r mater hwn. Atebodd MV trwy ddweud ei fod yn datblygu ffordd newydd o gyflwyno'r wybodaeth hon, ac y byddai ar gael yn y cyfarfod nesaf.

3. Dywedodd TMO wrth y Pwyllgor y bydd ef a Rory O'Sullivan yn cyfarfod â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ar 5 Hydref i gyflwyno'r adroddiad cychwynnol ar y dewisiadau ar gyfer rheoli Ystâd Goetir Llywodraeth y Cynulliad.

ADRODDIAD CYLLID

4. FY09/10 – Dywedodd MV wrth y pwyllgor fod Llythyr Rheoli 09/10 bellach wedi cael ei gwblhau ar wahân i ambell fater sydd ar ôl i'w datrys gyda Silvan House a Mechanical Engineering Services.

5. FY10/11 - Esboniodd MV yr adroddiad a dywedodd nad oedd amrywiad disgwyliedig yn sgil y gwariant ar *P ramorum* wedi cael ei gynnwys yn y ffigurau. Holodd JOJ ynghylch y canlyniad o ran diogelu coed ac atebodd PG trwy ddweud bod ymchwiliad yn cael ei gynnal o ran y ffigurau. Amlygodd MV y gorwariant mewn G&R oherwydd amseriad y taliadau grant a'i fod yn disgwyl iddynt ostwng y flwyddyn nesaf a bod incwm o goed £0.7 miliwn yn uwch na'r hyn a ragwelwyd.

6. Dywedodd JOJ oherwydd bod y cyllid yn mynd yn llai y byddai angen i'r Pwyllgor gael dealltwriaeth well o'r ffigurau i lywio'r penderfyniadau a wnânt a chytunodd MV i weithio gydag ef ar sut gellid cyflawni hyn. Ychwanegodd TMO ei fod yn edrych ar y rhaglen a'r cynigion cyllideb cyn cyhoeddi'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr ar 20 Hydref a bod y cylch Cynllun Busnes (CB) arferol bellach wedi cychwyn yn erbyn y cynlluniau cyfredol. Ychwanegodd fod y Bwrdd Rheoli yn cynllunio senarios yn seiliedig ar ddileu gwariant grant o gyfrifon Comisiwn Coedwigaeth Cymru dros y 3 blynedd nesaf. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi llunio senarios i fodloni'r rhagdybiaeth gynllunio gyfredol, sef 13.6% o ostyngiad yn y gyllideb dros y 3 blynedd nesaf, ond cytunodd fod angen mwy o wybodaeth ar aelodau i hwyluso trafodaeth sylweddol am y CB drafft.

Gweithredu: Rhoi dadansoddiad o'r ffigurau yn Atodiad 1 i'w rhoi i'r Pwyllgor Cenedlaethol. **MV**
Yr Ysgrifennydd i sicrhau bod y pwyntiau gweithredu yn cael eu cyflawni.

7. Trafodwyd yr incwm sy'n deillio o ffermydd gwynt a biomas a chadarnhaodd MV y byddai'r rhagolygon yn cael eu bodloni, er eu bod ar ei hôl hi ar hyn o bryd.

8. Gofynnodd PG beth yw barn y Pwyllgor ynghylch a oedd am i gostau gwasanaethau corfforaethol gael eu lledaenu dros weithgareddau gweithredol neu'u dangos ar wahân. Roedd JLJ o'r farn y byddai ynysu'r costau hyn yn nodi costau sefydlog y busnes ac awgrymodd RC y byddai'n ddefnyddiol gwybod sut oedd y costau hyn yn cael eu dosrannu. Cytunodd MV y byddai'n trafod hyn gyda'r Bwrdd Rheoli cyn mynd yn ôl at y Pwyllgor Cenedlaethol. **MV**

Gweithredu: Trafod costau dosrannu cost gwasanaethau corfforaethol gydag MB

9. Gofynnodd RC pam mae cynnydd mewn gwariant ar adfer coetiroedd ac atebodd PG y disgwylir i gymorth grant gael ei dargedu yn y maes hwn yn ogystal â gwariant cyfalaf ar leoedd i storio bwyd ceirw a systemau gwresogi biomas. Esboniodd MV mai ar gyllid gan LlCC yn unig yr oedd y gostyngiad o 13.6% mewn gwariant, nid ar yr holl gyllid, ond bod dyfodol y gweddill yn ansicr. Ychwanegodd TMO mai trwy newid model busnes Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn unig y byddai arbedion mwy yn cael eu cyflawni ac nid trwy effeithlonrwydd o ran gweithredu yn unig. Roedd yn disgwyl i gyllid LlCC ostwng dros y 3 blynedd nesaf (£1 miliwn eleni, £1 miliwn y flwyddyn nesaf a £2 miliwn y flwyddyn ganlynol) ac roedd ar fin lansio grŵp i ymchwilio i newid sefydliadol. Ychwanegodd ei fod yn gweithio'n agos gyda Rory

O'Sullivan ar gyllid Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac ar benderfyniadau megis sut byddai Glastir yn cael ei gyflwyno ac effaith dod â Gwell Coetiroedd i Gymru i ben ar gyllideb Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Nodwyd yr adroddiad gan y pwyllgor.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

10. Cyflwynodd TMO ei adroddiad trwy gadarnhau y byddai'r Gweinidog yn lansio'r cynllun Creu Coetiroedd newydd yn Sir Gaerfyrddin a'i bod hefyd wedi cadarnhau y bydd yn mynychu'r digwyddiad FUTUREforest ym mis Tachwedd. Disgrifiodd y gwaith ar *P ramorum* a'r ffaith bod y rhaglen cwympo coed wedi cael ei lleihau o 100k to 80k m3 a oedd yn golygu na fyddai unrhyw "werthiant tân" o bren llarwydden. Gofynnodd JOJ a oedd hyn yn golygu nad oedd yr haint cynddrwg â'r hyn a ddisgwyliwyd i ddechrau ac atebodd PG trwy ddweud ei fod yn ymwneud yn fwy â'r ffaith bod y cyfarwyddyd ar gyfer cwympo coed ar gyfer coed wedi'u heintio yn unig ac y byddai cwympo clystyrau o goed yn cael ei wneud ar sail datblygiad yr afiechyd gyda marchnata'r coed wedi'i wasgaru dros 4 i 5 mlynedd, gan roi amser i gynllunio ac i'r wyddoniaeth ddal i fyny. Gofynnodd JW ynglŷn â monitro safleoedd heintiedig a ph'un a oedd *vaccinium* yn cael ei ystyried yn ffactor risg fel organeb letyol arall yn lle'r rhododendron. Atebodd TMO trwy ddweud bod grŵp Prydain sy'n rheoli'r achos hwn yn cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru a FERA, felly roedd yr awdurdodau perthnasol ar *vaccinium* yn cymryd rhan. Dywedodd y byddai Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn parhau i gynllunio ar gyfer yr achos gwaethaf posibl o ran y llarwydden er bod y dystiolaeth bresennol yn awgrymu nad yw'r haint efallai cynddrwg â'r hyn a ofnwyd yn wreiddiol.

11. Yna, rhoddodd TMO y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygu elfen goetiroedd Glastir ac amlygodd y cyfle i greu coetiroedd yn sgil y cynllun hwn. Dywedodd y byddai'n haws mesur a gwirio'r elfennau coetiroedd er mwyn bodloni gofynion yr UE na'r targedau bioamrywiaeth o fewn y cynllun, a'i fod yn allweddol i ddatblygiad coedwigaeth yng Nghymru. Dywedodd JOJ fod llawer o ymateb negyddol wedi bod gan y wasg i'r cynllun, ond oherwydd bod y cyfraddau talu ar gyfer creu coetiroedd yn ddeniadol ac na fyddai angen i ffermwyr fod yn y cynllun lefel mynediad i fanteisio ar y rhain, credai y byddai o ddiddordeb i lawer o ffermwyr. Dywedodd TMO fod staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gwneud cynnydd ardderchog ar y mater hwn yn ogystal ag ar y rhaglen ynni gwynt lle'r oedd sawl cytundeb dewis bellach yn symud tuag at y cyfnod cynllunio. Esboniodd fod Gweinidogion a swyddogion LlCC wedi rhoi cymorth da i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn ystod trafodaethau anodd gyda datblygwyr a gofynnodd i aelodau'r Pwyllgor gyfeirio unrhyw ddull ato ef neu PG.

12. Disgrifiodd y gwaith yr oedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ei wneud gyda Phrosiect Blaenau'r Cymoedd a bod cynllun creu a rheoli coetiroedd wedi cael ei

gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru cyn cael ei gyflwyno i brif Fwrdd HOV. Dywedodd y byddai'r cynllun wedyn yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Cenedlaethol am eu syniadau ar yr amod bod y Bwrdd HOV yn ei gymeradwyo.

13. Fe wnaeth RC longyfarch Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar y cynllun Prentisiaeth Fodern. Atebodd TMO trwy ddweud bod y cynllun yn cael ei brofi fel rhan o raglen HOV ond oherwydd na fyddai angen niferoedd sylweddol o staff ar Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn y tymor byr y byddai'r cynllun yn cynorthwyo'r sector ehangach.

PROSIECT DEWISIADAU CYFLWYNO AMGYLCHEDDOL

14. Rhoddodd TMO y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd yr adolygiad hwn. Disgrifiodd gefndir y prosiect a'r gwaith diweddar ar sefydlu swyddogaethau'r cyrff dan sylw a'r costau a'r manteision ychwanegol yn sgil gwneud newidiadau sylweddol i'r cyrff hyn. Ychwanegodd y byddai Gweinidogion yn gwneud cyhoeddiad yn y flwyddyn newydd ynghylch a ddylid diddymu neu uno pob un neu rai o'r cyrff. Dywedodd y byddai angen datblygu'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol (NEF) ymhellach cyn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'i gyflwyno yn y dyfodol a pherthynas Comisiwn Coedwigaeth Cymru gyda LlCC. Esboniodd fod LlCC yn cael trafodaethau gyda Swyddfa'r Cabinet am gynnwys Mesur (Diwygio) Cyrff Cyhoeddus y DU er mwyn ceisio sicrhau pwerau i wneud newidiadau yng Nghymru.

Dywedodd wrth y Pwyllgor fod yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Defra wedi cyhoeddi adolygiad o Gomisiwn Coedwigaeth Lloegr ac y byddai LlCC a Llywodraeth Yr Alban yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar drefniadau ar gyfer rheoli coedwigaeth ym Mhrydain yn y dyfodol. Roedd yn debygol y byddai'r Gweinidogion coedwigaeth yn cyfarfod i drafod y materion hyn yn y dyfodol agos.

15. Gofynnodd RC sut oedd aelodaeth ffrydiau gwaith y Fframwaith Amgylchedd Naturiol wedi cael eu dewis a sut gallai unigolion neu grwpiau rhanddeiliaid gyfrannu at y broses. Atebodd TMO trwy ddweud bod penaethiaid Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Phrif Weithredwyr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn arwain rhai o'r grwpiau a bod staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cefnogi. Roedd PPD yn trefnu gweithdy undydd ar gyfer y sector coedwigaeth hefyd. Gofynnodd PG a fyddai gwaith y Fframwaith Amgylchedd Naturiol yn cael ei gyfuno â'r gwaith ar gyflwyno'r adolygiad o ddewisiadau, ac atebodd TMO trwy ddweud er eu bod yn gysylltiedig bod angen gwneud penderfyniad am y Fframwaith Amgylchedd Naturiol cyn y gellid llunio strwythur cyflwyno.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

16. Cyflwynodd JW y cyfarfod gyda'r cofnodion drafft o'r cyfarfod ARC diwethaf. Dywedodd fod llythyr gan reolwyr Swyddfa Archwilio Cymru bellach wedi cael ei dderbyn, a'u bod o'r farn bod gwelliannau wedi cael eu gwneud. Ychwanegodd y byddai cadeiryddion Country ARC yn trafod risgiau cyffredin yn eu cyfarfod yr wythnos ganlynol. Derbyniwyd y cofnodion drafft gan y Pwyllgor Cenedlaethol.

Y DIWEDDARAF AM YMCHWIL I GOEDWIGOEDD

17. Cyflwynodd TMO y diweddariad gan na allai Dr Hugh Evans fod yn bresennol. Dywedodd fod y Bwrdd Ymchwil i Goedwigaeth yn falch â'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran adeiladu perthnasoedd yng Nghymru a gyda'r arian cynyddol sy'n dod i'r sefydliad i gefnogi ei waith. Ystyriwyd bod model Cymru o leoli staff ymchwil mewn swyddfeydd sefydliadau partner yn un da gan y Bwrdd Ymchwil i Goedwigaeth. Byddai TMO a HE yn cyfarfod â Phrif Wyddonydd newydd LlCC a Chris Lea cyn bo hir i rannu syniadau ar adeiladu sylfaen y dystiolaeth, osgoi cystadleuaeth a lleihau costau. Roedd Prosiect Ymchwil Coedwig Dyfi bellach yn mynd rhagddo ac yn cael cefnogaeth gan sawl corff ymchwil.

18. Fe wnaeth RC longyfarch HE ar gynnydd y gwaith ymchwil i goedwigaeth yng Nghymru ac yn benodol ar sicrhau cyllid ar gyfer dau brosiect ymchwil.

POLISI A RHAGLENNU – SEFYLLFA'R POLISI BIOAMRYWIAETH

19. Cyflwynodd CT y papur fel yr olaf yn y gyfres o bapurau sefyllfa'r polisi. Ychwanegodd y dylid ystyried y polisi yng nghyd-destun yr adolygiad cyfredol o gyrff amgylcheddol a anogwyd gan y farn bod Cymru wedi methu cyflawni yn erbyn rhwymedigaethau bioamrywiaeth rhyngwladol. Dywedodd hefyd ei bod yn anodd ceisio cyfleu'r materion hyn i bobl ac y byddai hyn yn rhan bwysig o ddatblygu'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol.

20.Trafodwyd cymhlethdod y materion y mae'r papur yn ymdrin â nhw a bod angen ceisio symleiddio'r iaith a ddefnyddir er mwyn gallu ei deall yn iawn. Dywedodd JLJ fod y materion yn cael eu cymhlethu gan y cyfyng-gyngor ynghylch sicrhau statws ffafriol trwy roi trefn dda ar yr holl nodweddion cymhwyso ac mai'r hyn sy'n bwysig oedd bod rheolaeth ffafriol ar waith er mwyn rhoi diwedd ar golli bioamrywiaeth. Atebodd CT trwy ddweud bod rhan gyntaf y papur a ddefnyddiwyd gan yr UE yn erbyn terminoleg er y gallai fod yn anodd ei deall. Yna, cynigiodd aelodau'r Pwyllgor sylwadau penodol ar ddiwygio'r papur i wella ei ddarllenadwyedd ac egluro'r negeseuon yr oedd yn ceisio'u darparu.

Gweithredu – CT i wirio pwerau cyfreithiol o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a nodwyd ar dudalen 11 a diwygio'r papur i adlewyrchu sylwadau aelodau'r Pwyllgor Cenedlaethol. **CT**

MAPIO'R CYFLEOEDD O RAN COETIROEDD

21. Rhoddodd CT gyflwyniad ar yr ymarfer i fapio'r cyfleoedd o ran coetiroedd, sy'n rhan allweddol o gyfraniad Comisiwn Coedwigaeth Cymru at ddatblygu Glastir. Cynlluniwyd y map i nodi tir addas ar gyfer cyflawni targed LlCC, sef 100k ha o goetir newydd. Byddai'n cael ei ddefnyddio i nodi'r cyfaddawdau gyda'r defnydd tir presennol a symleiddio'r broses ymgynghori er mwyn cyflymu'r cyflwyno. Dywedodd JLJ fod yr ardaloedd plannu arfaethedig yn cyfateb i raddau helaeth i'r tir ffermio gorau yng Nghymru a bod hyn yn peri anhawster. Cytunodd CT â hyn, ond dywedodd ei fod yn angenrheidiol er mwyn cael darlun cyflawn o'r cyfleoedd sydd ar gael. Ychwanegodd fod yr ymarfer wedi gweithredu mewn modd rhagofalus ar gyfer ymgynghori yn y parciau cenedlaethol ac mewn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a'i fod wedi eithrio ardaloedd mawnog dwfn ac ardaloedd cynefinoedd blaenoriaethol BAP a safleoedd dynodedig eraill gan fod y rhain yn annhebygol o fod yn gymwys ar gyfer cymorth grant. Dywedodd JW ei fod yn gyfrwng cadarnhaol i annog plannu coed yn y lle cywir ac y byddai'n sicrhau cyrff anllywodraethol ynglŷn â'r dull y dylid ei ddefnyddio i gyflawni'r targed hwn.

UNRHYW FATER ARALL

22. Dywedodd JW wrth y Pwyllgor fod y Strategaeth ddrafft ar Geirw bellach wedi cael ei chyflwyno i randdeiliaid dethol ac y byddai'r ymgynghori yn gorffen ar 31 Hydref.

Cynigiodd ei dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Cenedlaethol.

23. Gofynnodd GC am gyfansoddiad gweithgorau'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol a sut gallai sefydliadau ac unigolion gyflwyno eu barn. Disgrifiodd CT aelodaeth y grwpiau allweddol yn y broses a'r modd yr oeddent yn debygol o ddatblygu eu gwaith dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, ychwanegodd fod y broses yn cael ei datblygu o hyd a dywedodd y byddai'n siarad â Chris Lea i weld sut gellid cyflwyno tystiolaeth i'r ffrwd waith datblygiad economaidd. Ychwanegodd fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei gynrychioli ar y ffrwd waith Partneriaethau a fyddai'n profi gwaith y grwpiau eraill.

24. Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 p.m.

Cyfarfod Nesaf – dydd Gwener 26 Tachwedd 2010 yng Nghaerdydd